Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd Y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

24 Mehefin 2020

Annwyl Rieni,

O wythnos nesaf, bydd y canolfannau gofal plant brys yn cael eu rhedeg o bump o ganolfannau hamdden y sir. Bydd y canolfannau'n agor dydd Llun 29 Mehefin, ac yna'n agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30 am tan 4.30 pm tan ddiwedd tymor yr haf.

Rydym wedi bod yn gweithio â'n partneriaid hamdden Freedom Leisure, ynghŷd â gwasanaethau eraill y cyngor, i agor y canolfannau yn Aberhonddu, Y Drenewydd, Rhaeadr Gwy, Y Trallwng ac Ystradgynlais.

Bydd y ddarpariaeth hon yn y canolfannau hamdden yn cynnig gofal plant i blant oed ysgol i helpu gweithwyr gwasanaethau brys, staff y Gwasanaeth Iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol sydd heb gofrestru eu plant gyda'r canolfannau gofal plant brys o'r blaen. Ni fydd plant o oed ysgol fydd yn mynychu'r canolfannau gofal plant brys yn y canolfannau hamdden yn gallu mynd i'w hysgolion arferol yn ystod pedair wythnos olaf y tymor gan mai cyngor Llywodraeth Cymru yw y dylai plant fynychu un lleoliad yn unig. Bydd hyn yn lleihau'r risg o ledaenu Covid-19 rhwng gwahanol grwpiau.

Bydd rhieni sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth yn y canolfannau hamdden yn gorfod gwneud eu trefniadau eu hunain i ollwng a chasglu'r plant a hefyd i baratoi digon o fwyd a diod am y dydd.

I gofrestru am ofal plant, anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol lle bydd dolen i chi sicrhau lle: covid19.hubs@powys.gov.uk

Cllr Phyl Davies
Cabinet Portfolio for Education and Property